

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth

Gorffennaf 2020

1. Y cefndir

Y Bil

1. Cafodd Bil Amaethyddiaeth 2019-2021 Llywodraeth y DU (y Bil)¹ ei gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 16 Ionawr 2020. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
2. Aeth y Bil i Dŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai. Cafwyd ail ddarlleniad y Bil ar 10 Mehefin, a dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor ar 7 Gorffennaf.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 12 Chwefror 2020, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.²
4. Gwnaethom adrodd ar yr Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 14 Mai 2020 (yr adroddiad cyntaf).³ Mae'r adroddiad cyntaf yn nodi cefndir y Bil mewn

¹ Bil Amaethyddiaeth 2019-21

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth, Chwefror 2020

³ Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth, Mai 2020



mwy o fanylder, gan gynnwys manylion ynghylch Bil Amaethyddiaeth 2017-19 (Bil 2017-19), sef darn o ddeddfwriaeth y mae'r Bil cyfredol yn debyg iddo mewn sawl ffordd. Mae'r adroddiad cyntaf hefyd yn crynhoi diben a chwmpas y Bil.

5. Ymatebodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), i'r adroddiad cyntaf ar 29 Mehefin 2020.⁴

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol Llywodraeth Cymru

6. Ar 11 Mehefin 2020, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.⁵

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig adrodd ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 9 Gorffennaf 2020.⁶ Yn ddiweddarach, newidiwyd y terfyn amser gan y Pwyllgor Busnes i 24 Medi 2020.⁷

8. Mae paragraffau 14 i 28 o Femorandwm Rhif 2 yn disgrifio'r diwygiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch.

9. Mae diwygiadau sy'n berthnasol i Gymru, i gymhwysedd datganoledig ac felly i Femorandwm Rhif 2, wedi'u gwneud i gymalau 31, 32, 37, 47, 48, 50 a 53 o'r Bil, ac i Atodlenni 3 a 5 i'r Bil.⁸

10. Mae'r holl eitemau a ganlyn wedi'u diwygio i adlewyrchu'r cam diweddar o newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru: cymal 31; cymal 37; cymal 47; cymal 48; Atodlen 3, Rhan 1; ac Atodlen 5, Rhan 2, paragraff 6.

11. Fel y'u drafftiiwyd yn wreiddiol, dim ond i Loegr yr oedd cymalau 32(2), (3) a (4), sy'n gwneud newidiadau i ddarpariaethau deddfwriaethol cyfredol, yn

⁴ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 29 Mehefin 2020

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Amaethyddiaeth, Mehefin 2020

⁶ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth, Mehefin 2020

⁷ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth, Gorffennaf 2020

⁸ Mae rhifau'r cymalau a'r cyfeiriadau a wneir at Atodlenni yn berthnasol i'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

gymwys. Mae'r cymalau dan sylw wedi'u diwygio er mwyn sicrhau bod y newidiadau bellach yn gymwys i Gymru hefyd.

12. Mae paragraffau 2 a 4 o Atodlen 5, Rhan 1, wedi'u diwygio er mwyn cynnwys dibenion penodol mewn perthynas ag addasu deddfwriaeth benodol.

13. Mae paragraff 5 o Atodlen 5, Rhan 1, wedi'i ddiwygio i ehangu pwerau gwneud rheoliadau, a hynny er mwyn caniatáu i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chefnogaeth i ddatblygu gwledig, ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno, gael eu haddasu i'r graddau y mae ganddynt effaith mewn perthynas â Cymru. Mae hefyd wedi cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod y pwerau rheoleiddio yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

14. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'n dweud:

“Fel a ddisgrifir yn y Memorandwm cyntaf, bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw cyhoeddi Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth cyn diwedd tymor y Senedd hon a fydd yn adeiladu ar y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ac yn gosod y sylfeini ar gyfer cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor y Senedd nesaf. Mae manylion y cynllun newydd yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniadau polisi a gweithredol na ellir eu gwneud nes bod dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriadau a'r Papur Gwyn wedi'i gwblhau a bod yr holl ffactorau perthnasol wedi'u hystyried.

Bydd gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn golygu y bydd modd parhau i ddarparu'r cymorthdaliadau amaethyddol presennol ar ôl 2020, a sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.”⁹

15. Mae Memorandwm Rhif 2 yn datgan y casgliad a ganlyn:

“Mae'r Memorandwm ategol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil ers cyflwyno'r gofyn am gydsyniad Senedd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gefnogol ar y cyfan i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio. Ond dylid nodi na ellir rhoi argymhelliad pendant i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil tan y bydd yn nes at ddiwedd ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi. Pe ceid diwygiadau yn y dyfodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yna caiff rhagor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol eu cyflwyno ger

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol, paragraffau 30-31

bron y Senedd yn ôl y gofyn, gydag argymhelliad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad y Senedd ar yr adeg briodol."¹⁰

2. Trafodaeth y Pwyllgor

16. Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 22 Mehefin 2020.¹¹ Nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog yn sgil yr amserlen dynn ar gyfer adrodd.

17. Gwnaethom drafod ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf yn ystod ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020.¹²

Ein barn ni

18. Dylid darllen ein hadroddiad ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

19. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom nodi bod y Bil yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r argymhellion a wnaed gennym yn ein hadroddiad cyntaf yn adlewyrchu pwysigrwydd y Bil fel darn o ddeddfwriaeth a fydd yn cael effaith sylweddol ar y sector amaethyddol yng Nghymru am y tair blynedd nesaf, fan lleiaf.

20. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ymateb yn ffurfiol i'n hadroddiad cyntaf mewn modd amserol, nid ydym yn fodlon ag ymateb y Gweinidog i argymhelliad 1 yn yr adroddiad hwnnw.

21. Rydym yn disgwyl i argymhellion y Pwyllgor hwn gael eu derbyn neu eu gwrthod, ac i naratif priodol gael ei ddarparu i gyd-fynd â'r penderfyniad hwnnw. Yn ein barn ni, nid yw'n dderbyniol nodi'n syml fod argymhelliad wedi'i wneud. At hynny, nid yw'r ymateb yn mynd i'r afael â'r graddau y mae'r Bil yn berthnasol i unrhyw fframwaith cyffredin. Gwnaethom ofyn am eglurhad ar y pwynt hwn, a gwnaethom ofyn am wybodaeth yn nodi'n glir y darpariaethau yn y Bil y mae eu hangen i gyflawni'r fframwaith dan sylw. Yn anffodus, nid yw ymateb y Gweinidog i'n hargymhelliad cyntaf yn mynd i'r afael â'r naill fater na'r llall.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol, paragraff 36

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Mehefin 2020

¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Gorffennaf 2020

Argymhelliaid 1. Dylai'r Gweinidog ailedrych ar argymhelliaid 1 yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil, a dylai ddarparu ymateb priodol a chynhwysfawr i'r Pwyllgor.

22. Dyma oedd argymhelliaid 2 yn ein hadroddiad cyntaf ar yr Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

“Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau i lunio rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer pob pŵer i wneud rheoliadau.”

23. Wrth wneud argymhelliaid 2, roeddem yn cydnabod y ffaith nad oedd yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar gyfer Bil 2017-2019, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019,¹³ wedi cael eu cyflawni gan fod y Bil wedi syrthio yn sgil y diddymiad. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylai'r wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i gyd-fynd â'r Bil cyfredol.

24. Nodwn fod y Gweinidog, wrth dderbyn argymhelliaid 2, wedi ymrwymo i ddarparu “crynoded llawn o bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru...fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Ategol a roddwyd ger bron ar 11 Mehefin.” Rydym yn siomedig na chymerwyd y cyfle i'w gynnwys ym Memorandwm Rhif 2, yn enwedig gan fod y cynnig i drafod cydsyniad deddfwriaethol ar yr adeg y cafodd Memorandwm Rhif 2 ei gyhoeddi wedi'i drefnu ar gyfer 15 Gorffennaf 2020.

25. Credwn fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Gweinidog yn groes i ysbryd yr ymateb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion gwreiddiol ar 25 Gorffennaf 2019.¹⁴ Mae 18 mis wedi mynd heibio ers y cais gwreiddiol am wybodaeth. Nid ydym yn deall yr oedi hwn, yn enwedig o gofio'r ffaith mai bwriad Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019, cyn i etholiad cyffredinol y DU gael ei alw, oedd darparu'r wybodaeth hon ar gyfer y Cyfnod Adrodd mewn perthynas â Bil 2017-2019.

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth, Ionawr 2019

¹⁴ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 25 Gorffennaf 2020, Argymhellion 5 i 7

- 26.** Mewn perthynas ag argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr argymhelliad hwnnw yn cael ei chynnwys yn y crynodeb o bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru y mae'n cyfeirio ato yn ei hymateb.
- 27.** Mae'r wybodaeth hon yn bwysig yng nghyd-destun caniatáu inni gyflawni ein swyddogaeth graffu a thynnu sylw'r Senedd at faterion perthnasol, os oes angen gwneud hynny, fel y gall pob Aelod wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i Senedd y DU roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.
- 28.** Er ein bod yn cydnabod barn Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 2, mae'r diffyg gwybodaeth yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ategol wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith craffu.
- 29.** Rydym yn cydnabod bod nifer o'r newidiadau a wnaed i gymalau 31, 37, 47 a 48 o'r Bil, ac i Atodlenni 3 a 5 i'r Bil, yn adlewyrchu newid enw ein sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru/Welsh Parliament.
- 30.** Fodd bynnag, o ran y diwygiadau sylweddol a wnaed i gymal 32 ac Atodlen 5, nid yw Memorandwm Rhif 2, yn ein barn ni, yn darparu'r lefel o fanylder y mae ei hangen i ddeall effaith lawn y diwygiadau fel y maent yn berthnasol i Gymru a phwerau Gweinidogion Cymru.
- 31.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion y DU mewn perthynas â chymal 32 yn ystod Cyfnod Pwyllgor a Chyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau dan sylw yn ymestyn y ddarpariaeth ynghylch nodi ac olrhain anifeiliaid, a oedd eisoes yn ddarpariaeth 'Lloegr yn unig', fel ei bod yn gymwys yng Nghymru hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni a yw'r diwygiadau i gymal 32 wedi'u gwneud yn sgil newid yn safbwynt Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, nid yw Memorandwm Rhif 2 yn darparu unrhyw fanylion ynghylch pa un a wnaed y diwygiadau hyn ar gais Llywodraeth Cymru.
- Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw'r diwygiadau i gymal 32 wedi'u gwneud o ganlyniad i newid yn safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch adnabod ac olrhain anifeiliaid, ac a arweiniodd hyn at gais gan y Gweinidog i ddiwygio'r cymal dan sylw.
- 32.** Yn ogystal, mae diwygiadau canlyniadol wedi'u gwneud i gymalau 50 a 53 o'r Bil, sy'n ymwneud â chychwyn y darpariaethau yng nghymal 32. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi a yw'r Gweinidog yn fodlon â'r diwygiadau i gymalau 50 a 53.
-

33. Er gwaetha'r ffaith bod y Gweinidog yn fodlon â'r diwygiadau a wnaed hyd yma i gymal 32, nodwn fod Memorandwm Rhif 2 hefyd yn datgan bod gan y Gweinidog bryderon nad ydynt wedi'u datrys ynghylch y cymal hwn, yn ymwneud ag absenoldeb unrhyw ofynion priodol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn rhai amgylchiadau. Rydym yn cydnabod bod yr un pryderon yn berthnasol i gymalau 36 a 37, a bod Memorandwm Rhif 2 yn nodi y bydd gwaith i ddatrys y pryderon hyn yn mynd rhagddo yn ystod taith seneddol y Bil.

34. Nid yw'n glir a fydd y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon y Gweinidog ar ffurf datrysiadau deddfwriaethol neu ddatrysiadau anneddfwriaethol. Unwaith eto, rydym yn ailadrodd ein pryder ynghylch gorddibyniaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ôl pob golwg, ar ddefnyddio cytundebau rhynglywodraethol i ddatrys anghydfodau.

35. At hynny, a chan ategu'r hyn yr ydym wedi'i nodi mewn adroddiadau diweddar eraill ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Biliau eraill y DU sy'n gysylltiedig â Brexit, nid yw cytundebau rhynglywodraethol nad ydynt yn rhwymo yn gyfrwng priodol i'w ddefnyddio yn lle datrysiadau deddfwriaethol mewn perthynas â llinellau coch Gweinidogion Cymru.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â'r pryderon nad ydynt wedi'u datrys mewn perthynas â chymalau 32, 36 a 37. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion ynghylch sut y bydd pryderon y Gweinidog yn cael eu datrys; hynny yw, p'un a fydd hyn yn digwydd ar ffurf datrysiadau deddfwriaethol neu ddatrysiadau anneddfwriaethol.

36. Nodwn fod Atodlen 5 i'r Bil wedi'i diwygio mewn tri maes: darpariaethau sy'n ymwneud ag addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol (paragraff 2); darpariaethau sy'n ymwneud ag addasu darpariaeth gyffredinol sy'n gysylltiedig â thaliadau i ffermwyr a buddiolwyr eraill yng Nghymru (paragraff 4); a darpariaethau sy'n ymwneud â chefnogaeth i ddatblygu gwledig (paragraff 5). Nodwn hefyd fod y pwerau yn y paragraffau hyn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth fachlud yng nghymal 44, a byddant felly'n dod i ben ar ddiwedd 2024.

37. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 2, yn fodlon â'r gwelliannau i Atodlen 5 a gyflwynwyd gan Weinidogion y DU. Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw Memorandwm Rhif 2 yn cynnwys manylion angenrheidiol ynghylch pa un a wnaeth y Gweinidog gais bod y diwygiadau hyn yn cael eu gwneud.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a gyflwynwyd y gwelliannau i Atodlen 5 ar gais y Gweinidog.

38. Gellir dadlau bod y diwygiadau a wnaed i'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraffau 2 a 4 o Atodlen 5 yn darparu lefel uwch o fanylder ar wyneb y Bil. Serch hynny, mae diffyg tryloywder ynghylch eu heffaith o hyd, ac nid yw'n glir i ni a yw'r diwygiadau yn culhau neu'n ehangu'r pwerau hynny. Nodwn nad yw Memorandwm Rhif 2 yn crybwyll y mater hwn, ac mae cyferbyniad clir rhwng y sefyllfa hon â'r sylwebaeth a ddarperir ar gyfer y diwygiadau sydd wedi'u gwneud i baragraff 5 o Atodlen 5 (a drafodir ymhellach isod.)

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am effaith y diwygiadau a wnaed i baragraffau 2 a 4 o Atodlen 5, ac yn benodol ynghylch a yw'r diwygiadau yn gyfystyr ag ehangu'r pwerau gwneud rheoliadau yn y paragraffau hynny.

39. Fel sydd wedi'i grybwyll ym mharagraff 38 uchod, nodwn fod y diwygiadau a wnaed i baragraff 5 o Atodlen 5 yn ehangu pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rheoliadau a wneir o dan baragraff 5 bellach yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

40. Yn ein hadroddiadau blaenorol ar Fil 2017-19 a'n hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom sylwadau ynghylch yr anghydfod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 40 i 42 o'r Bil, sy'n ymwneud â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar amaethyddiaeth.

41. Yn sgil ein dadansoddiad ni o'r Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer y fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi, rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU bellach o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd arni ar gyfer cymalau 40 i 42, a hynny gan fod y cymalau dan sylw yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

42. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ym mharagraff 33 o Memorandwm Rhif 2, sy'n nodi bod cytundeb wedi'i daro gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch arfer y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymalau 40 i 42.

43. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl i'r Gweinidog ddatgan yn glir ac yn dryloyw ym Memorandwm Rhif 2 fod safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad deddfwriaethol wedi newid.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor am safbwynt diwygiedig Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 40 i 42 o'r Bil.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor am y cytundeb a gafodd ei daro gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch arfer y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymalau 40 i 42.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ymateb i bob argymhelliad yn yr adroddiad hwn ar fyrder, a hynny cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil.